# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 168 (v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diwygio Bysiau - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig

(0 munud)

### 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia - Gohiriwyd

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cymorth i Aros

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Adroddiad Blynyddol 2022-23

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Parthau Buddsoddi

(30 munud)

## 8 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Cydnabod y cyfraniad y mae digwyddiadau yn ei wneud i Gymru - Gohiriwyd

(0 munud)

## 9 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Tata Steel

(30 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

**NNDM8394** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy’n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu’r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8393 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Tachwedd 2023.

## 10 Dadl: Coffa

(60 munud)

**NNDM8393** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd parhaus cyfnod y Cofio i deuluoedd a chymunedau yng Nghymru.

2. Yn talu teyrnged i wasanaeth ac aberth unigolion o bob rhan o Gymru sydd yn gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog.

3. Yn cydnabod gwaith diflino sefydliadau, unigolion a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cymuned a chyn-aelodau'r lluoedd arfog ledled Cymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu am ddatrysiadau heddychlon i bob gwrthdaro ac am ddiwedd ar ryfel.

Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys cwympiedigion sifil.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Tachwedd 2023